**Bwletin o Batagonia 2** (Mawrth 14, 2022) gan Twm Elias

Mor wahanol i adra. Dyffryn Camwy ei hun yn wastad ac yn gynhyrchiol oherwydd yr holl ffosydd dyfrio agorwyd gan y Cymry'n wreiddiol. Tref Gaiman yn rhannol ar fryniau'r paith gerllaw - i osgoi llifogydd enfawr yr afon yn achlysurol. Y tai cyntaf ar y tir gwastad ond yn dilyn llif mawr 1899 fe galliodd pobl ac adeiladu ar dir uwch.

Wyneb y paith yn gerrigos crynion yn gorwedd ar glai gwyn calchog. Y cerrigos,yn amrywio o faint gewin bys bach i faint dwrn, yn bob lliw a llun wedi eu treiglo yma pan oedd rhewlif mawr yr Andes yn ei anterth ac yn yr afonydd adeg y dadmer mawr ar ddiwedd yr Oes y Rhew ddeheuol. Cerrig folcanig yn bennaf - gwahanol fathau o wenithfaen a pheth yn fetamorffig. Yr amrywiaeth lliw a llun yn fwy hydnoed na geir ar draethau gogledd Lly^n.

Mi fyddai’r olwg gyntaf o’r paith wedi bod yn gryn sioc i fintai’r Mimosa yn 1865, ond wrth lwc, fe lwyddasant i gael trefn a bywoliaeth o lawr y Dyffryn, wedi gweithio’n galed i ddyfrio a thrin y pridd gwell yno. Ni fuasent wedi llwyddo heb help gan yr Techwelche lleol a llywodraeth yr Ariannin.

Oherwydd y trwch cerrigos, sychder, a'r llwyni anfwytadwy mae'n amhosib ffermio'r paith. Anghyfanedd go iawn, badlands, ond yn gyfoethog yn ei fywyd gwyllt. O, ia, a mi welais sgwarnog ddoe ar gyrrion y dre - yr un Ewropeaidd, gyflwynwyd gan rywun i ogledd y wlad yn 1888, ac a ymledodd nes cael ei hystyried yn bla gan y Gwladfawyr.



Cerrigos amrywiol ar wyneb y paith



*Diffeithwch y paith o ben Y Dorth, un o'r bryniau tu cefn i'r Gaiman*

Deuthum a rhai o cerrigos lliwgar y paith ger Y Gaiman adre i Gymru a'u cyflwyno i Gymdeithas Cymru-Ariannin are u stondin yn ein Eisteddfod Genedlaethol. Fe wnaeth y Gymdeithas gryn dipyn o arian yn eu gwerthu am £1.00 yr un.